# Hwyaid lledaenu

# hwyaidlledaenu

Mae ymchwil yn galw am gydweithio ac mae proffil LinkedIn yn ffordd wych arall i rwydweithio a rhannu syniadau. Nid yw'n disodli dulliau mwy traddodiadol fel cynadleddau, ond mae'n ychwanegu atyn nhw.

## Ambell air i gall ar gyfer LinkedIn

Manteisiwch ar eich llinell bennawd – esboniwch beth sy'n eich gwneud chi'n neilltuol

Y crynodeb yn eich proffil ydy'r lle i siarad am yr ymchwil rydych chi'n gweithio arni

Gwnewch yn siŵr bod eich proffil wedi'i gwblhau 100%, gan fod hyn yn fwy defnyddiol i bobl eraill

Tynnwch sylw at eich gwaith gorau, gan nad oes angen ichi roi'ch profiad i gyd yn eich proffil

Defnyddiwch ddolenni – dolenni allan i enghreifftiau o'ch gwaith e.e. cyhoeddiadau neu fideos

Gofynnwch am gael cysylltu â chysylltiadau newydd trwy eich 'cyfeillion' LinkedIn

**I gael gwybod mwy, cysylltwch â'r tîm cyfathrebu:**

ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk
02920 230 457
@YmchwilCymru
ymchwiliechydagofal.llw.cymru/map-trywydd-ymchwil

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

LinkedIn

# Peidiwch â gadael eich ymchwil ar y silff

Mae gan bob un ohonon ni stori i'w hadrodd, ond mae rhai straeon yn fwy neilltuol nag eraill. Fe fydd dweud dim mwy na bod astudiaeth ymchwil wedi'i chynnal ddim yn gwneud y tro; mae'n rhaid i bobl allu ymdeimlo â'r canlyniadau hynny - ac mae angen i ni wybod sut y bydd yn helpu pobl go iawn. Felly, adroddwch eich stori ymchwil...

Eich stori ymchwil

Meddyliwch am eich cynulleidfa. Pwy ydyn nhw a beth sydd ei angen arnyn nhw?

Cadwch bethau'n syml! Peidiwch â defnyddio jargon fel eich bod chi'n annog cynulleidfaoedd i ddysgu am eich ymchwil.

Beth ydy effaith eich ymchwil i'ch cynulleidfa? Pam y dylai fod o bwys iddyn nhw?

Beth ydy'ch ffactor 'wow'? Mae'r straeon sy'n cael eu hadrodd orau'n creu emosiwn i'w cynulleidfa – dewch o hyd i'r 'wow' yn eich stori chi.

Mae cynulleidfaoedd eisiau gwybod am fwy na dim ond data. Beth ydy'r stori y tu cefn i'ch prosiect ymchwil?

I gael gwybod mwy, ewch i'r Map Trywydd Ymchwil yn ymchwiliechydagofalcymru.llyw.cymru